# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN23:

- **Gwastraff Gwydr a Gwydr Miniog o Labordai a Gweithdai**

| | |
|---|---|
| **Diweddarwyd Gan:** | Ben Harris (Swyddog Cynaliadwyedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y Fersiwn:** | 18/11/2025 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN23<br>Gwastraff Gwydr a Gwydr Miniog o Labordai a Gweithdai | |
|---|---|
| Man creu | Unrhyw labordy neu weithdy |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 18 01 01 / 18 01 03* / 15 01 07 20-01-02 |
| Math | Rheoledig – Gwastraff Peryglus - wedi'i halogi gan gemegau<br>Ddim yn beryglus - heb ei halogi |
| Dull gwaredu | Didoli i'w losgi<br>Ailgylchu am agregau |
| Math o fin/bag | Peryglus - bocs eitemau miniog 30 litr melyn gwrymiog â chaead melyn<br>Ddim yn beryglus - bin ailgylchu gwydr labordy 240 litr allanol |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

### Peryglus

EWC 18 01 01 "eitemau miniog"
EWC 18 01 03* "Gwastraff y mae ei gasglu a'i waredu yn ddarostyngedig i ofynion arbennig er mwyn atal heintio"

Mae'n ofyniad cyfreithiol o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i ddidoli gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd gwastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.

Mae'r Brifysgol wedi penodi contractwr gwastraff peryglus sy'n darparu gwasanaeth casglu gwydr (miniog) o weithdai a labordai ar gampysau Singleton a Champws y Bae.

### Ddim yn beryglus

EWC 15-01-07 “defnydd pecynnu, gwydr glân”[1].
EWC 20-01-02 “Gwastraff trefol (Gwastraff cartref a gwastraff masnachol, diwydiannol a sefydliadol tebyg) gan gynnwys ffracsiynau a gesglir ar wahân; Gwydr”

## Eitemau

Gall gwastraff gwydr o labordai a gweithdai'r Brifysgol ddod o nifer o ffynonellau:

- Llestri gwydr o labordai (e.e. Pyrex)
- Poteli cemegion/hydoddyddion (e.e. Poteli Winchester)

Mae'n rhaid i unrhyw lestri gwydr sydd wedi'u torri neu eu halogi â deunyddiau peryglus, a/neu nad oes modd eu dihalogi, gael eu gwaredu fel gwastraff peryglus labordy neu weithdy.

Gall llestri gwydr nad ydynt wedi'u halogi na'u torri gael eu didoli i'w hailgylchu.

[1]Mae'n rhaid i gynwysyddion fod yn wag i gael eu hystyried yn ddefnydd pecynnu.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

**Peryglus - gwydr sydd wedi'i dorri a gwydr sydd wedi'i dorri a'i halogi gan gemegau**

**Storfa fewnol i'w waredu**

Llestri gwydr sydd wedi'u halogi gan gemegau a llestri gwydr sydd wedi'u torri:

- Llestri gwydr labordy; Biceri, jariau etc. Poteli Winchester, poteli cemegau gwydr

Angen eu didoli i'w gwaredu fel gwastraff peryglus gan ddefnyddio biniau melyn 30 litr i eitemau miniog. Ar ben hynny, os yw llestri gwydr labordy neu weithdy wedi'u torri (ac felly'n cyfrif fel perygl miniog) dylai'r defnyddiwr gael gwared â nhw yn y bin melyn 30 litr i eitemau miniog.



Ffigur 1: Bin melyn i eitemau miniog

Gellir cael biniau melyn i eitemau miniog yn y lleoliadau canlynol, a'u gwaredu yma hefyd:

**Campws Singleton**
- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd: Storfeydd ILS1

**Campws y Bae**
- Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg: Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg

Mae'n rhaid gosod arwydd **Gwydr Labordy Wedi'i Dorri yn Unig** ar flaen pob bin. Gall defnyddwyr lamineiddio'r arwydd a'i ailddefnyddio. Gellir dod o hyd i'r arwydd hwn isod.

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

**Ddim yn beryglus - gwydr glân, heb ei dorri**

**Gwaredu i'w ailgylchu**

Llestri gwydr glân, heb eu halogi, na'u torri:

- Llestri gwydr labordy; Biceri, jariau etc.

Dylid mynd â'r rhain a'u rhoi yn y biniau ailgylchu Veolia gwyrdd allanol sydd ymhob compownd gwastraff. Tynnwch unrhyw rwber neu fetel oddi ar y llestri gwydr os yw'n bosib.

**Singleton**
- Storfa Gwastraff Cemegol Grove
- Storfeydd ILS1 (mynedfa ochr)

**Campws y Bae**
- Iard Gwasanaeth Peirianneg

*Mae modd mynd â gwastraff Poteli hydoddyddion Winchester sydd heb eu torri*

i Storfa Gwastraff Cemegol Grove a Storfa Gwastraff Cemegol y Bae i'w hailgylchu ar ôl iddynt gael eu hawyru a'u glanhau'n ddiogel.

Gellir dod â'r poteli i'r storfeydd gwastraff cemegol ar y diwrnodau pan fyddant ar agor heb eu hychwanegu at y ffurflen gwastraff cemegol. Tynnwch neu ddifwyno'r label ac e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am amser.

Sylwer; Gall poteli gwydr (gan gynnwys poteli cemegion a hydoddyddion) gael eu dychwelyd i'r cyflenwr i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu os yw'r cyflenwr yn cynnig y gwasanaeth hwn.

## Cost Gwaredu

Peryglus - Codir tâl am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

**Ddim yn beryglus -** Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn

| |
|---|
| **Am ragor o arweiniad, e-bostiwch** Estates-Waste@abertawe.ac.uk |
| **Ffurflenni a Labelu -** Arwydd ar gyfer bin melyn gwrymiog 30 litr ar gyfer gwastraff gwydr sydd wedi'i dorri a'i halogi isod<br>Mae'r holl ffurflenni, labeli a chanllawiau gwastraff perthnasol ar gael yma. |

# RHYBUDD GWASTRAFF PERYGLUS



NIWEIDIOL

HARMFUL

# GWYDR LABORDY SYDD WEDI'I DORRI A'I HALOGI YN UNIG

**BIN CLINIGOL MELYN GWRYMIOG 30L - CAEAD MELYN - EWC 17 02 04 / 18 01 03 ***

## EITEMAU

## GWYDR LABORDY SYDD WEDI'I DORRI A'I HALOGI YN UNIG

**LLENWCH HYD AT Y LLINELL YN UNIG**

**DIM NODWYDDAU / FFLEIMIAU / EITEMAU METEL MINIOG / CHWISTRELLAU / LLAFNAU**

**GELLIR CAEL GWARED Â PHOTELI WINCHESTER GWAG YN Y STORFA GWASTRAFF CEMEGOL**